

1 Atodiad C.1 - Adolygiad Perygl Llifogydd Powys (heb gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

1.1 Llifogydd hanesyddol

Mae hanes o ddigwyddiadau llifogydd a gofnodwyd o nifer o ffynonellau llifogydd yn ardal Powys. Mae digwyddiadau llifogydd sylweddol o fewn ardal awdurdod Cyngor Sir Powys (a godwyd o set ddata CNC o amlinellau llifogydd a gofnodwyd ac o gofnodion Cyngor Sir Powys ac adroddiadau am ddigwyddiadau llifogydd hanesyddol) wedi'u cofnodi isod yn Tabl 1-1. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gynnwys y digwyddiadau llifogydd mwyaf sylweddol yn Tabl 1-1, nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob digwyddiad o'r fath. Anogir datblygwyr i ymgynghori â'r ALILIA a CNC ynghylch perygl llifogydd hanesyddol i safle datblygu arfaethedig. Mae crynodeb o ddsbarthiad gofodol digwyddiadau llifogydd hanesyddol o garthffosydd yn ôl ward etholiadol wedi'i ddangos yn Tabl 1-2.

Mae gwybodaeth a gafwyd gan ALILIA Powys yn dangos na fu digwyddiadau llifogydd dŵr daear o fewn Powys ers creu'r ALILIA. Yn yr un modd, ni chofnodwyd digwyddiadau llifogydd o ffynonellau artifisial ac eithrio bylchiad yn un o asedau United Utilities yn 2017: gweler Tabl 1-1 isod.

Tabl 1-1 Digwyddiadau Llifogydd yn ôl blwyddyn

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
Ebrill 1947	Bochrwyd	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Y Clas-ar-Wy i'r Gelli Gandryll	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Llynnoedd Letton	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Riddings Brook	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Pont Glanllugwy	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Knobley Brook	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Is-afon i Lugwy sydd heb ei henwi	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Llugwy yn Llanandras a Hindwell	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Summergeil Brook	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1947	Burlingjobb i Geintun	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ionawr 1948	Blaenau Hafren – Trefaldwyn i Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio)	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Rhagfyr 1960	Blaenau Hafren – Trefaldwyn i Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio)	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
Rhagfyr 1965	Llanfair-ym-Muallt	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Chwefror 1990	Cyffordd Dyfi, Aber Dyfi	Gorlifo'r amddiffynfeydd.
Hydref 1998	Ger y Drenewydd a Llandrindod	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1998	Caersŵs	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Manthrig Brook – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Ebrill 1998 a 2000	Trefyclo	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Wylcwm Brook ac Afon Tefeidiad – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
2000	Ceri	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Miwl ynghyd â llifogydd dŵr wyneb. Ni wyddys nifer yr unedau eiddo a effeithiwyd.
2000	Caersŵs	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Manthrig Brook. Cofnodwyd bod y maes chwaraeon dan lifogydd. Ni wyddys nifer yr unedau eiddo a effeithiwyd.
2000	Llandinam	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Hafren a llifogydd o is-afonydd bach. Gwyddys bod nifer o unedau eiddo wedi'u heffeithio ond nid yr union nifer.
Tymor yr hydref 2000	Blaenau Hafren – Trefaldwyn i Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio)	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Hydref 2000/ Hydref 2001	Machynlleth	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel cwrs dŵr cyffredin. Dim manylion pellach ar gael.
Chwefror 2002	Blaenau Hafren – Trefaldwyn i Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio)	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
2002	Llandrindod	Llifogydd yn Llandrindod o ganlyniad i orlenwi sianel Nant Arlais – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Chwefror 2004	Blaenau Hafren – Trefaldwyn i Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio)	Gorlenwi'r sianel – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Rhagfyr 2007	Llowes	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel cwrs dŵr cyffredin. Dim gwybodaeth bellach ar gael.
Gorffennaf 2007	Tregynon	Llifogydd yn yr ardal o ganlyniad i orlenwi sianel Bechan Brook. Gwaethygydd hyn gan lifogydd dŵr wyneb a achosodd lifogydd mewnlol mewn nifer o unedau eiddo yn yr ardal.

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
Medi 2008	Ystradgynlais	Llifogydd yn yr ardal o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Tawe ynghyd â llifogydd dŵr wyneb.
2008	Ceri	Llifogydd yn yr ardal o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Miwl ynghyd â llifogydd dŵr wyneb.
Ionawr 2010/Hydref 2010	Llowes	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel cwrs dŵr cyffredin. Dim gwybodaeth bellach ar gael.
Hydref 2010	Llanandras	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Clatter Brook. Dim gwybodaeth bellach ar gael.
Mai 2012	Cwm-bach/ Y Clas-ar-Wy/ Llowes	Llifogydd mewnol mewn 9 eiddo preswyl o ganlyniad i orlenwi sianel cwrs dŵr cyffredin (ni wyddys yr enw). Y llifogydd wedi'u gwaethygu am fod malurion wedi rhwystro'r cwrs dŵr.
Awst 2012	Ystradgynlais	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Tawe ynghyd â llifogydd dŵr wyneb.
Rhagfyr 2012	Llanfyllin (Brook Street a High Street)	Llifogydd mewnol mewn 7 eiddo preswyl a 3 eiddo masnachol. Cofnodwyd llifogydd mewnol ar ddyfnder o 0.2m. Prif ffynhonnell y llifogydd oedd Nant Abel a gwaethygyd hyn o ganlyniad i rwystro mewnfa cwlfer uwch (ni wyddys yr union leoliad).
Gorffennaf 2013	Ceri	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Miwl ynghyd â llifogydd dŵr wyneb.
Medi 2016	Ystradgynlais	Llifogydd mewnol mewn 12 eiddo preswyl a 3 eiddo masnachol yn yr ardal. Dyfnder mwyaf y llifogydd oedd 0.15m. Daeth llifddwr yn agos i'r trothwy mewn 30 eiddo preswyl arall, ond ni chafwyd llifogydd mewnol ynddynt. Cofnodwyd mai achos y llifogydd oedd gorlenwi sianeli cyrsiau dŵr cyffredin (ni roddwyd enwau'r cyrsiau dŵr). Roedd hyn, ynghyd â dŵr wyneb ffo a gorlwytho carthffosydd, wedi gwaethygu llifogydd yn yr ardal.
13 Ionawr 2017	Llanrhaeadr-ym-Mochnant	Roedd bwllch yn nyfrbont diamedr mawr United Utilities (cyflenwad dŵr Llyn Efyrrwy i Lerpwl) wedi effeithio ar Lanrhaeadr-ym-Mochnant ar 13 Ionawr 2017. Cofnodwyd llifogydd mewnol mewn 3 eiddo a bod effaith ar nifer o unedau eiddo eraill.
Mai 2018	Y Trallwng	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel cwrs dŵr a oedd heb ei enwi sy'n llifo drwy ganol y dref. Roedd llifogydd dŵr wyneb wedi cyfrannu i'r broblem hefyd. Cofnodwyd difrod yn yr ysbyty ac mewn nifer o unedau eiddo yn yr ardal.
Mehafin 2019	Y Trallwng	Yr un ffynonellau llifogydd â digwyddiad Mai 2018 a ddisgrifiwyd uchod. Cofnodwyd llifogydd yn neuadd y dref ac mewn nifer o fusnesau.
Chwefror 2020	Trefyclo	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianeli Wylcwm Brook ac Afon Tefeidiad. Llifogydd ar nifer o ffyrdd yn y dref. Ni wyddys a oedd llifogydd mewn eiddo.
Chwefror 2020	Cei'r Trallwng	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Nant Cegidfa.
Chwefror 2020	Llanelwedd a Llanfair-ym-Muallt	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Gwy. Roedd y llifddwr wedi effeithio ar faes y Sioe

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
		Amaethyddol Frenhinol a nifer o siopau a gorsafoedd petrol yn yr ardal. Caewyd yr A470 a'r A483 o ganlyniad i lifddwr.
Chwefror 2020	Trefyclo	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianeli Wylcwm Brook ac Afon Tefeidiad. Achoswyd llifogydd mewn eiddo.
Chwefror 2020	Llandinam	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianeli Afon Hafren a nifer o is-afonydd bach yn Llandinam. Cofnodwyd bod llifogydd ar yr A470 ac mewn o leiaf 4 eiddo.
Awst 2020	Ystradgynlais	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Tawe yn ogystal â llifogydd dŵr wyneb. Cofnodwyd bod y llifogydd wedi dod yn sydyn a bod y llifddyfroedd mor ddwfn â 600mm mewn rhai unedau eiddo.
Chwefror 2021	Y Clas-ar-Wy	Llifogydd yn y Clas-ar-Wy o ganlyniad i orlenwi sianeli Afon Gwy ac is-afonydd cysylltiedig.
Chwefror 2022	Llandrindod	Llifogydd yn Llandrindod o ganlyniad i orlenwi sianel Nant Arlais – dim manylion pellach wedi'u cofnodi.
Chwefror 2022	Llanfyllin	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Cain yn ogystal â nifer o is-afonydd. Cofnodwyd bod hyn wedi achosi llifogydd mewn eiddo yn yr ardal ond ni wyddys nifer yr unedau eiddo.
Tachwedd 2022	Ystradgynlais	Llifogydd o ganlyniad i orlenwi sianel Afon Tawe yn ogystal â llifogydd dŵr wyneb. Cofnodwyd llifogydd mewnol mewn 50 eiddo yn yr ardal.

1.2 Afonydd

Y prif gyrsiau dŵr yn ardal Awdurdod Lleol Powys (heb gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yw:

- Bechan Brook
- Nant Cegidfa
- Afon Cain
- Afon Dyfi
- Afon Honddu
- Afon Ieithon
- Afon Irfon
- Afon Llugwy
- Afon Tanat
- Afon Hafren
- Afon Tefeidiad
- Afon Efyrynwy
- Afon Gwy

Mae'r cyrsiau dŵr hyn wedi'u dynodi'n Brif Afonydd gan CNC. Darperir mapiau sy'n dangos amlinellau llifogydd o Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd yn Sir Powys yn Atodiad C.2.

Afon Hafren yw'r afon hiraf yn y DU ac mae'n codi ym Mhumlumon ym Mynyddoedd Cambria. Mae'n llifo tua'r gogledd-ddwyrain gan mwyaf drwy aneddiadau ym Mhowys fel y Drenewydd a'r Trallwng, cyn croesi i Swydd Amwythig ychydig i'r gogledd o Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio). Mae Afon Hafren yn llifo tua'r de wedyn cyn cyrraedd Aber Hafren ac yn cyrraedd y môr ym Môr Hafren.

Gorlifdir Afon Hafren yw'r gorlifdir ehangaf o fewn Powys, a cheir Parthau Llifogydd 2 a 3 yn agos i'r cwrs dŵr, ac yn ymestyn i ardaloedd fel y Drenewydd, y Trallwng, Llanidloes, Llandinam, Caersŵs ac Aber-miwl. Yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd o afonydd yw'r lleoliadau hynny yng ngogledd-ddwyrain Powys lle mae nifer o is-afonydd yn cyfuno ag Afon Hafren.

Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC ar hyd Afon Hafren yn y Drenewydd a Chaersŵs. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn rhannau isaf Afon Trannon, is-afon fach i Afon Hafren i'r gorllewin o Gaersŵs. Ceir amddiffynfeydd a reolir gan CNC ar hyd Afon Hafren i'r gogledd o'r Trallwng yng Nghei'r Trallwng ac yn Landrinio. Credir bod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol hyn yn darparu safon diogelwch lai nag 1 mewn 100 mlynedd, ac nid ydynt yn Barth Amddiffynnol TAN 15. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn y Drenewydd ac mae'r rhain yn ffurfio Parth Amddiffynnol TAN 15.

Afon Efyrynwy yw un o brif is-afonydd Afon Hafren ac mae ei ffynhonnell yn Llyn Efyrynwy yng ngogledd Powys. Mae'n llifo tua'r de-ddwyrain gan mwyaf ac yn cyfuno ag Afon Hafren ychydig i'r gogledd o Gryw Green (i'r de-ddwyrain o Landrinio). Mae gorlifdir Afon Efyrynwy yn weddol gyfyng, yn agos i'r cwrs dŵr yn y rhannau uchaf. Lle mae Afon Banwy yn ymuno yn y rhannau canolog ger Meifod, ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 eang ac mae'r perygl o lifogydd afonol ar ei fwyaf yma.

Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC sydd â safon diogelwch y credir ei bod yn llai nag 1 mewn 100 mlynedd i'r de o Feifod, lle dangoswyd bod perygl mawr o lifogydd afonol. Hefyd ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC ar hyd rhan hir o Afon Hafren rhwng Haughton a Haim (ar y glannau de) a rhwng Lane Farm ac Upper Farm (y Crugion) (ar y glannau chwith). Yn ogystal â hyn, ceir amddiffynfeydd i'r gogledd o Landysilio, ger Rhandregynwen. Er bod amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol yn yr ardaloedd hyn, nid yw aneddiadau y tu ôl i'r amddiffynfeydd wedi'u dynodi'n Barthau Amddiffynnol TAN 15.

Mae ffynhonnell Afon Tanat ger mynydd Cyrniau Nod, i'r gogledd o Lyn Efyrynwy, ac mae'n llifo tua'r dwyrain i Lanyblodwel cyn llifo i'r de ac ymuno ag Afon Efyrynwy ger Llansantffraid-ym-Mechain. Mae rhywfaint o berygl o lifogydd afonol yn gysylltiedig â'r cwrs dŵr hwn yn aneddiadau Llangynog a Phen-y-bont-fawr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn agos i'r cwrs dŵr ac yn gyfyngedig i'r gorlifdir presennol. Mae Afon Eirth yn is-afon i Afon Tanat, a cheir amddiffynfa rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn Llangynog.

Mae Afon Banwy yn is-afon i Afon Efyrynwy. Mae ei ffynhonnell i'r gogledd o Nant-y-dugoed ac mae'n llifo tua'r dwyrain gan mwyaf am oddeutu 19km cyn ymuno ag Afon Efyrynwy.

Mae Afon Gwy yn un o brif is-afonydd eraill Afon Hafren. Mae'n codi ym Mhumlumon ym Mynyddoedd Cambria ac yn llifo ochr yn ochr â'r A470 gan mwyaf i gyfeiriad y de, gan fynd drwy aneddiadau fel Rhaeadr Gwy, y Bontnewydd-ar-Wy, a Llanfair-ym-Muallt. Mae'r perygl o lifogydd afonol yn y rhannau hyn yn gyfyngedig i'r cwrs dŵr i raddau helaeth, a cheir Parthau Llifogydd 2 a 3 yn agos i'r afon. Yn Llys-wen, mae Afon Gwy yn llifo tua'r dwyrain gan mwyaf gan groesi i Swydd Henffordd yn y Gelli Gandryll. Wedyn mae'n llifo tua'r de ac yn ffurfio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan ymuno ag Afon Hafren i'r de o Gas-gwent. Mae gorlifdir Afon Gwy yn eang, a cheir Parthau Llifogydd 2 a 3, ac mae'r perygl o lifogydd afonol ar ei fwyaf rhwng y Clas-ar-Wy a'r Gelli Gandryll. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn y Clas-ar-Wy sy'n darparu safon diogelwch lai nag 1 mewn 100 mlynedd, er nad ydynt wedi eu dynodi'n Barth Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Ieithon yn un o brif is-afonydd Afon Gwy. Mae'n codi i'r de o Ddofor, gan lifo tua'r de gan mwyaf ochr yn ochr â'r A483 gan ymuno ag Afon Gwy ychydig i'r de o'r Bontnewydd-ar-Wy. Ceir cyfres o is-afonydd sy'n ymuno ag Afon Ieithon ar hyd ei chwrs, er bod y perygl o lifogydd afonol wedi'i gyfyngu i goridor y cwrs dŵr i raddau helaeth.

Mae Afon Irfon yn un o brif is-afonydd eraill Afon Gwy. Mae'n codi ym Mynyddoedd Cambria ac yn llifo tua'r de gan mwyaf i Lanwrtyd cyn troi tua'r gogledd-ddwyrain ac ymuno ag Afon Gwy yn Llanfair-ym-Muallt. Mae perygl llifogydd afonol ar Afon Irfon wedi'i gyfyngu i goridor yr afon, a cheir Parthau Llifogydd 2 a 3 yma. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn Lanwrtyd ac yn Beulah, sy'n darparu safon diogelwch sylfaenol 1 mewn 100 mlynedd. O ganlyniad i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd hyn, mae'r ddwy ardal hyn wedi'u dynodi'n Parthau Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Elan (sydd heb ei dynodi'n Brif Afon gan CNC) yn codi ar ochr ddwyreiniol Pen y Deunant yng Ngheredigion, cyn llifo tua'r gorllewin i'r cronfeydd dŵr yng Nghwm Elan, Rhaeadr Gwy. Mae'n ymuno ag Afon Gwy i'r de o'r Bontnewydd-ar-Wy. Mae perygl o lifogydd afonol yn gysylltiedig â'r cronfeydd dŵr yn yr ardal hon, er bod y perygl yn gyfyngedig gan mwyaf i'r corff dŵr ei hun. Yn ogystal â hyn, ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 ar Afon Elan ei hun. Fodd bynnag, oherwydd topograffi serth yr ardal hon, mae'r perygl o lifogydd afonol yn gyfyngedig i goridor y cwrs dŵr.

Mae Afon Dyfi â'i ffynhonnell yn llyn Creiglyn Dyfi yn sir gyfagos Gwynedd ac mae'n croesi i sir Powys yn Aberangell, gan lifo tua'r de-orllewin yn bennaf cyn cyrraedd y môr yn Aberdyfi. Mae'n ffurfio'r ffin rhwng Powys a Gwynedd, ac yn croesi i Geredigion i'r gorllewin o Forben. Ceir perygl llifogydd afonol yn y rhannau isaf, ac mae Parthau Llifogydd 2 a 3 yn ymestyn hyd at 500m oddi wrth y cwrs dŵr, gan greu gorlifdir eithaf eang.

Mae Afon Llugwy yn codi ger pentref Llangunllo, yng nghanol Powys, ac yn llifo tua'r de-ddwyrain gan mwyaf tua Llanandras, cyn croesi i Swydd Henffordd. Ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 yn agos i'r cwrs dŵr, felly gwelir bod y perygl o lifogydd yn weddol gyfyngedig.

Mae Summergeil Brook yn codi ger Llanfihangel, yn ne-ddwyrain Powys. Nid yw wedi'i dynodi'n Brif Afon gan CNC. Er hynny, dangoswyd ei bod yn achosi llifogydd afonol hanesyddol yn ardal ACLI Powys fel y gwelir yn Tabl 1-1. Mae'n llifo tua'r dwyrain drwy dref Maesyfed i Womaston, cyn ymuno â Hindwell Brook. Ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 o fewn 300m i'r cwrs dŵr, felly mae'n peri'r lefel risg fwyaf i bentrefi cyfagos ac aneddiadau bach.

Mae Afon Tefeidiad yn codi yn Nolfor i'r de o'r Drenewydd yng Nghanolbarth Cymru cyn llifo tua'r de-ddwyrain at y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn Felindre. Mae'r afon yn ffurfio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr nes cyrraedd Trefyclo cyn croesi'r ffin sirol i gyfeiriad Bucknell.

Mae Afon Cain yn codi yng ngogledd y sir yn agos i Lanfyllin cyn llifo tua'r dwyrain i Lansantffraid-ym-Mechain lle mae'n ymuno ag Afon Efyrynwy.

Mae Afon Honddu â'i ffynhonnell yn agos i Gapel Uchaf yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n llifo i gyfeiriad y de tua Aberhonddu. Mae Parthau Llifogydd 2 a 3 yn gyfyngedig i sianel yr afon gan mwyaf yn y rhan hon o'r cwrs dŵr nes i'r afon ymuno ag Afon Wysg yn Aberhonddu.

Mae Bechan Brook yn codi yn Nhregynon cyn llifo tua'r de-ddwyrain i gyfeiriad y Drenewydd lle mae'n ymuno ag Afon Hafren. Mae Parthau Llifogydd 2 a 3 yn gyfyngedig i sianel yr afon, gan ehangu wrth ymuno ag Afon Hafren.

Mae'r Basdata Asedau Llifogydd Cenedlaethol (NFAD)¹ yn cynnwys cofnodion o'r seilwaith llifogydd yng Nghymru, yn cynnwys argloddiau, waliau, llifddorau, cwlfertau, a sgriniau malurion. Mae'r holl RMA's yng Nghymru yn cael eu hannog i gofnodi manylion yr holl asedau y gwyddant amdanynt yn NFAD, yn cynnwys asedau mewn perchnogaeth breifat. Caiff NFAD ei ddiweddarau'n rheolaidd i wella cywirdeb y data. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae CNC yn tynnu sylw at y materion canlynol mewn perthynas â'r gronfa ddata hon:

- gall rhai o'r data fod yn anghywir, fod wedi dyddio neu fod ar goll
- mae'n bosibl nad oes gwybodaeth am rai o'r asedau dan ddaear neu fod y wybodaeth amdanynt yn anghywir
- nid yw gwybodaeth ynghylch Ceredigion yn cael ei dangos
- nid yw cynlluniau Gwrthsefyll Llifogydd mewn Eiddo (PFR) wedi'u cynnwys

Perygl Llifogydd o Afonydd a TAN 15

Oherwydd natur y topograffi ym Mhowys, mae gorlifdiroedd yr afonydd mwyaf – Afon Hafren ac Afon Gwy – yn eang a gwastad, fel y gall dŵr lifo dros ardaloedd eang a cheir ardaloedd i lawr yr afonydd sydd o fewn Parthau Llifogydd 2 a 3. Mae'r rhan fwyaf o aneddiadau fel Llanfair-ym-Muallt a Chaersŵs o fewn Parth Llifogydd 3. Gyda golwg ar afonydd eraill a drafodwyd sydd wedi'u dynodi'n Brif Afonydd gan CNC, ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 ar eu cyfer er bod eu gorlifdiroedd yn weddol gyfyng ac yn agos i'r cwrs dŵr, felly nid ydynt yn peri cymaint o risg i aneddiadau.

Mewn ardaloedd mynyddig, fel Mynyddoedd Cambria ac ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (a drafodir yn fanwl yn Atodiad A.1) ychydig iawn o berygl llifogydd afonol a geir yma, o ganlyniad i'r nodweddion dyffrynol, fel graddiant uwch y topograffi. Felly, mae mwyafrif yr ardaloedd mynyddig hyn o fewn Parth Llifogydd 1.

Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd a geir ar hyd Afon Hafren, Afon Efyrynwy, Afon Gwy, ac Afon Irfon yn cael eu cynnal gan CNC. O ganlyniad i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd hyn, mae rhannau o'r gorlifdir afonol wedi'u dynodi'n Barthau Amddiffynnol TAN 15. Felly, mae datblygiadau o bob math yn bosibl ar yr amod eu bod yn bodloni'r Profion Cyfiawnhau. Mae safon diogelwch y digwyddiad 1% AEP yn gymwys i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd.

Ni fydd datblygiadau newydd dan fygythiad mawr yn ddichonol mewn rhannau o Barth Llifogydd 3 sydd heb amddiffynfeydd, gan nad yw Parth Llifogydd 3 yn addas ar gyfer datblygiadau sydd dan fygythiad mawr. Bydd datblygiadau sydd o dan lai o fygythiad yn bosibl dim ond os byddant yn bodloni'r Profion Cyfiawnhau caeth sydd wedi'u disgrifio yn TAN 15. Gwneir asesiadau safle-benodol ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn a bydd gofyn am fodelu llifogydd manwl. Oherwydd y diffyg diogelu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd CNC, mae'n debygol y bydd angen ystyried mesurau lliniaru perygl llifogydd ar gyfer unrhyw ddatblygu arfaethedig a gellid wynebu mwy o her wrth fodloni gofynion TAN 15.

1.3 Dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr llai

Mae mapiau sy'n dangos yr amlinellau llifogydd dŵr wyneb yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys wedi'u darparu yn Atodiad C.2.

Mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Dŵr Wyneb a Chyrsgiau Dŵr Bach yn dangos mai'r rhagolygon ar gyfer llifogydd dŵr wyneb yw y byddant yn dilyn llwybrau llif topograffig y cyrsiau dŵr neu ddyffrynnoedd sych presennol.

1 <https://naturalresources.wales/flooding/managing-flood-risk/find-flood-defence-structures-near-you-the-national-flood-asset-database/?lang=cy>

Ar hyd Afon Hafren, Afon Gwy, ac Afon Efyrynwy gwelir llwybrau llif dŵr wyneb amlwg sy'n nodweddiadol o orlifdiroedd ac is-afonydd y cyrsiau dŵr hyn.

Y Trallwng, y Drenewydd, a Chaersŵs ar hyd Afon Hafren yw'r ardaloedd sy'n ymddangos eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf, a cheir ardaloedd sydd o fewn Parth Llifogydd 3. Ceir perygl o lifogydd y tu allan i'r prif aneddiadau yn bennaf.

Rhagwelir y bydd llifogydd a achosir gan ddŵr wyneb a chysiau dŵr bach yn digwydd mewn ardaloedd trefol fel y Drenewydd a Llanfair-ym-Muallt, ac mewn rhai ardaloedd lleol yn y Parth Llifogydd 3, yn cynnwys seilwaith ffyrdd.

Mewn ardaloedd trefol, mae llwybrau llif dŵr wyneb yn cael eu siapiro gan seilwaith trefol a phantiau topograffig. Caiff dŵr wyneb ei sianelu gan y ffyrdd o gwmpas yr aneddiadau, a bydd yn cronni mewn manau agored eang ac mewn pantiau topograffig.

Mae gwaredu dŵr wyneb ffo yn ystyriaeth allweddol, pa un a yw'r safle datblygu o fewn ardal lle ceir perygl llifogydd neu beidio. Byddai datblygu dwys o fewn dalgylch yn gallu arwain at gynnydd mewn dŵr ffo a fyddai, os nad oedd wedi'i reoli'n briodol, yn gallu arwain at gynnydd mewn llifogydd o fewn ardal yr astudiaeth ac ar diroedd is.

Mae datblygiadau newydd hefyd yn gallu cynyddu'r pwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio trefol. Felly mae'n bwysig rheoli effaith datblygiadau mewn ffordd gynaliadwy. Er y bydd yn ofynnol bod yr holl gynlluniau draenio dŵr wyneb a gynigir yn rhai sy'n gyson â'r Safonau Statudol ar gyfer SDCau yng Nghymru a'r hierarchaeth gollyngiadau, os ydynt ar gyfer mwy nag un annedd neu lle mae arwynebedd adeiladu o 100m², mae'n annhebygol y caniateir i unrhyw safle datblygu arfaethedig ollwng dŵr wyneb i'r system carthffosydd cyhoeddus, hyd yn oed lle nad yw lefelau blaenoriaeth 1-3 (casglu dŵr glaw, ymdreiddio, a gollwng i gorff dŵr) yn ddichonol.

Perygl Llifogydd Dŵr Wyneb a TAN 15

Gellir caniatáu pob math o ddatblygiad ym Mharth Llifogydd 2 a 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Llifogydd Dŵr Daear a Chysiau Dŵr Bach ar yr amod bod modd bodloni'r meini prawf derbynioledeb yn TAN 15. Gwneir asesiadau safle-benodol ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn lle dylid ystyried llwybrau llif, y posibilrwydd o wastatáu pantiau topograffig a ffyrdd posibl o ddefnyddio SDCau i reoli llif dŵr wyneb ar draws safle datblygu. Dylai datblygwyr ymgynghori â'r ALILIA/Corff Cymeradwyo SDCau i geisio unrhyw wybodaeth benodol ynghylch llifogydd dŵr wyneb a chysiau dŵr bach ar safle datblygu arfaethedig. Lle ceir llifogydd dŵr wyneb lleol, dylid lleoli datblygiadau y tu allan i Barthau Llifogydd 2 a 3 lle y bo modd.

1.4 Dyfnder Llifogydd dŵr daear

Y prif elfennau yn naeareg y creigwely yn ardal ACLI Powys yw cerrig llaid, cerrig silt, a thywodfaen. Lefel isel o fandylledd a hydreddedd sydd gan gerrig llaid ar y cyfan ond mae tywodfaen yn cael ei ystyried yn fwy hydraidd ac mae'n gallu storio dŵr daear a gadael iddo lifo. Felly, yn yr ardaloedd hyn dylid ystyried y posibilrwydd y bydd dŵr daear yn trylifo i fyny ac yn achosi llifogydd wedyn.

Ychydig o ardaloedd yn ardal ACLI Powys sy'n cynnwys dyddodion arwynebol, a cheir y rhan fwyaf o'r rhain o gwmpas y Prif Afonydd fel Afon Gwy ac Afon Hafren. Mae dyddodion arwynebol yn cynnwys llifwaddod yn bennaf, sydd wedi'i ffurfio o Glai, Silt, a Thywod. Mae cofnodion hefyd ar gyfer gogledd Powys am ddyddodion Til sy'n cael ei ystyried yn hydraidd gan mwyaf. Mae amrywiaeth y dyddodion arwynebol ledled y sir yn awgrymu y gall llifogydd dŵr daear beri perygl lleol mewn rhai ardaloedd. Darperir mapiau sy'n dangos dyfnder dangosol llifogydd dŵr daear ym Mhowys yn Atodiad C.2. Mae'r map yn asesu'r risg o weld dŵr daear yn codi i'r wyneb ac nid y llifogydd dŵr daear a geir o ganlyniad. Yn aml, ni fydd llifogydd dŵr daear yn digwydd oni bai fod dŵr daear heb rywle i fynd iddo heb Gronni neu orlifo mewn ardal yn gyntaf.

Yn y rhan fwyaf o'r sir, yn enwedig yn y de, ceir dŵr daear sydd o leiaf 5m o dan wyneb y ddaear neu'n is na hynny. Ar hyd Afon Gwy, rhwng y Bontnewydd-ar-Wy a'r Gelli Gandryll, dangoswyd bod lefelau dŵr daear rhwng 0.5m a 5m o dan wyneb y ddaear, a bod rhai ardaloedd lle mae lefel dŵr daear ar yr un lefel â wyneb y ddaear neu'n agos iawn iddo (o

fewn 0.025m). Yng ngogledd y sir, yn enwedig ar hyd Afon Hafren ac Afon Efyrrwy, ac yn agos i Brif Afonydd eraill a ddynodwyd gan CNC, ceir ardaloedd eang lle mae lefelau dŵr daear sydd un ai ar yr un lefel â wyneb y ddaear neu'n agos iawn iddo (o fewn 0.025m), ac yn y dalgylchoedd uwch ceir lefelau dŵr daear sydd rhwng 0.5 a 5m o dan wyneb y ddaear. Mae'r lleoliadau hyn lle mae modelu wedi dangos bod dŵr daear yn agos i'r wyneb yn rhai sy'n agos i gwrs dŵr lle gellid disgwyl cael lefel dŵr daear uchel.

Nid yw'r ffaith bod perygl mawr o lifogydd dŵr daear mewn parth penodol yn golygu o reidrwydd na ellir defnyddio technegau ymdreiddio ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau), er eu bod yn llai tebygol o fod yn addas. Bydd y Corff Cymeradwyo SDCau yn gofyn bob amser am asesiad safle-benodol o'r posibilrwydd o ddefnyddio technegau ymdreiddio.

Perygl Llifogydd Dŵr Daear a TAN 15

Nid yw TAN 15 yn pennu unrhyw ofnion ar gyfer perygl llifogydd dŵr daear, heblaw y dylid ystyried perygl llifogydd dŵr daear wrth wneud AGLI. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle mae lefel dŵr daear yn llai na 0.025m dan wyneb y ddaear os na wneir rhagor i fonitro dŵr daear a llunio asesiadau manwl.

1.5 Llifogydd o garthffosydd

Mae DCWW a Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am y seilwaith carthffosydd ar draws ardal yr astudiaeth, ac am gofnodi digwyddiadau llifogydd mewn carthffosydd.

Mae DCWW a Hafren Dyfrdwy wedi darparu manylion am ddigwyddiadau hanesyddol ac ardaloedd lle ceir perygl. Cofnodir digwyddiadau llifogydd hanesyddol mewn perthynas â charthffosydd budr, cyfun neu ddŵr wyneb cyhoeddus. Mae'r cofnodion hyn yn dangos nifer yr unedau eiddo lle cafwyd llifogydd mewnol a/neu allanol. Mae crynodeb o ddsbarthiad gofodol y digwyddiadau llifogydd hanesyddol mewn carthffosydd yn ôl ward etholiadol yn Tabl 1-2. Mae wardiau sydd am y ffin rhwng Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi'u cynnwys yn y tabl hwn hefyd. Nid yw wardiau lle cofnodwyd 'dim data' wedi'u cynnwys yn Tabl 1-2. Mae'r data hyn yn dangos mai'r ward lle cofnodwyd y nifer mwyaf o ddigwyddiadau llifogydd yw Tawe Uchaf.

Mae DCWW a Hafren Dyfrdwy yn ymdrechu i leihau nifer y digwyddiadau llifogydd mewn carthffosydd drwy fuddsoddi mewn gwaith cynnal a gwelliannau i'r rhwydwaith carthffosydd.

Nid yw DCWW na Hafren Dyfrdwy wedi darparu unrhyw wybodaeth am y rhagolygon o'r perygl llifogydd o'r rhwydwaith carthffosydd.

Tabl 1-2 Digwyddiadau Llifogydd o Garthffosydd yn ôl Ward Etholiadol: yn cynnwys wardiau sydd am y ffin rhwng Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ward Etholiadol	Nifer y digwyddiadau llifogydd o garthffosydd
Tawe Uchaf	42
Gogledd y Drenewydd	14
Gogledd Llandrindod	10
Llanllŷr gyda Nantmel	10
Machynlleth	10
Ynyscedwyn	9
Aber-craf ac Ystradgynlais	9
Llanfair-ym-Muallt	9
Diserth a Thre-coed gyda'r Bontnewydd-ar-Wy	9
Llanafan-fawr gyda Garth	7
Y Gelli Gandryll	6
Llandrinio	6

Gwernyfed	4
Maes-car a Llywel	4
Gorllewin y Drenewydd	3
Y Trallwng Llanerchydol	3
Glantwymyn	3
Llanwrtyd	3
Rhiwcynon	2
Y Trallwng Gungrog	2
Ceri	2
Trefyclo gyda Bugeildy	2
Llandinam gyda Dolfor	2
De Llandrindod	2
Llanfair Caereinion a Llanerfyl	2
Llangynyw a Meifod	2
Llan-gors gyda Bwlch	1
Talgarth	1
Canol a De'r Drenewydd	1
Llanandras	1
Rhaeadr Gwy	1
Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn	1
Yr Ystog	1
Dyffryn Ieithon	1
Llanbrynmair	1
Llanelwedd	1
Llanidloes	1
Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin	1
Llansantffraid	1

Perygl Llifogydd o Garthffosydd a TAN 15

Nid yw TAN 15 yn pennu unrhyw ofynion ar gyfer perygl llifogydd o garthffosydd, heblaw y dylid ei ystyried wrth wneud AGLI. Dylid ymgynghori â'r ALILIA a DCWW a/neu Hafren Dyfrdwy i ofyn iddynt ddarparu cyngor penodol ar unrhyw hanes hysbys o lifogydd o garthffosydd ac unrhyw gamau adfer a gymerwyd.

1.6 Llifogydd o ffynonellau artiffisial

Mae ffynonellau llifogydd artiffisial yn cynnwys cronfeydd dŵr sydd o fewn neu'n uwch na'r sir sy'n peri risg llifogydd i ardal ACLI Powys. Darperir mapiau sy'n dangos y perygl llifogydd dichonol o gronfeydd dŵr yn Atodiad C.2. Y cronfeydd dŵr sy'n peri risg llifogydd i'r sir yw:

- Caban Coch
- Claerwen
- Craig Goch
- Dôl-y-mynach
- Garreg Ddu
- Llyn Clywedog

- Llyn y Mynydd
- Llyn Cwmannel
- Pen-y-garreg
- Shelve Pool
- Efyrynwy

Mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Cronfeydd Dŵr yn dangos mai ardaloedd o fewn amlinellau llifogydd Llyn Clywedog ac Efyrynwy yw'r rheini sy'n wynebu'r effaith fwyaf o ganlyniad i fylchu neu orlifo cronfa ddŵr. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd fel Llanidloes, y Drenewydd a'r Trallwng. Ymhellach i'r de, aneddiadau ar hyd Afon Gwy sy'n wynebu risg o ganlyniad i fylchu cronfeydd dŵr yng Nghwm Elan yw Llanfair-ym-Muallt a'r Gelli Gandryll.

Mae methiant mewn cronfa ddŵr yn gallu achosi difrod trychinebus am fod meintiau mawr o ddŵr yn cael eu rhyddhau ar unwaith. Mae hanes rhagorol gan gronfeydd dŵr yn y DU o ran diogelwch, a CNC yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i'r holl gronfeydd dŵr mawr gael eu harchwilio a'u goruchwylio gan beirianwyr y panel cronfeydd dŵr. Cymerir bod y cronfeydd dŵr hyn yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, a bod gwaith diogelwch hanfodol yn cael ei gyflawni. Felly, mae'r risg sy'n cael ei hachosi gan y cronfeydd dŵr hyn yn fach iawn.

Yn TAN 15, nodir y byddai unrhyw ddatblygiad o fewn dalgyllch llifogydd cronfa ddŵr yn gallu arwain at newid categori bygythiad y gronfa ddŵr. Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio yn codi unrhyw oblygiadau posibl i berchnogion neu weithredwyr cronfeydd dŵr, fel rhai'n ymwneud â dyrannu safleoedd ar gyfer datblygu mewn ardaloedd llifogydd, mewn ffordd agored ac adeiladol.

1.7 Newidiadau o ran deall perygl llifogydd

Buddsoddi Cyfalaf mewn Mesurau FCERM

Mae Cyngor Sir Powys yn cynnal rhaglen o brosiectau buddsoddi mewn mesurau FCERM sy'n debygol o ddechrau cael eu hadeiladu yn y 5 mlynedd nesaf. Mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud yn bennaf â llifogydd a achosir gan ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin (nid llifogydd o brif afonydd) yn y cymunedau hyn. Mae'r rhain ar gyfer:

- Aberhonddu
- Llanfair-ym-Muallt
- Caersŵs
- Crucywel
- Llangrwyne
- Y Clas-ar-Wy
- Nant Cegidfa
- Gurnos (Ystradgynlais)
- Trefyclo
- Llanfyllin
- Llangamarch
- Llowes
- Machynlleth
- Pen-y-bont
- Plasnewydd (Llanfechain)
- Pont-faen (Trefyclo)
- Pontsenni
- Cydlifiad Hafren/Efyrynwy

Gwelliannau i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn y dyfodol

Mae'r lleoliadau yn y rhestr isod wedi'u cynnwys ym modelau llifogydd presennol CNC a disgwylir y bydd y rhain wedi'u cynnwys yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio drwy ddiweddariadau rheolaidd yn y dyfodol. Nid yw CNC wedi nodi dyddiadau ar gyfer y diweddariadau hyn.

- Aberhonddu
- Llanfair-ym-Muallt
- Crucywel
- Y Clas-ar-Wy
- Y Gelli Gandryll
- Meifod
- Afon Hafren ym Mhowys
- Efyrnwy